OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1511 (Cy.115)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *7 Mehefin 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Gorffennaf 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 112 a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac ar ôl gwneud y trefniadau y mae'n barnu eu bod yn briodol ar gyfer ymgynghori ynglŷn â'r cynigion a hynny yn unol ag adran 117 o'r Ddeddf a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2005.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dehongli

**3.** Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "canlyniadau dymunol" yr ystyr a roddir i "*desirable outcomes*" yn adran 104 o Ddeddf 2002;

mae "cyfnod allweddol cyntaf" i'w ddehongli yn unol â dehongliad "*first key stage*" yn adran 103(1) o Ddeddf 2002;

ystyr "cynllun treialu'r cyfnod sylfaen" ("*foundation phase pilot*") yw cynllun treialu sy'n cael ei ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn profi neu ddatblygu'r meysydd dysgu, y canlyniadau dymunol, y rhaglenni addysgol a'r trefniadau asesu cyn bod adran 102 o Ddeddf 2002 yn cychwyn;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "disgybl cofrestredig ("*registered pupil*") yw person sydd wedi'i gofrestru'n ddisgybl yn yr ysgol yn y gofrestr sy'n cael ei chadw o dan adran 434 o Ddeddf Addysg 1996(**2**);

(**1**) 2002 p.32. I gael ystyr "regulations" *gweler* adran 212(1).
(**2**) 1996 p.56.

mae i “rhaglenni addysgol” yr ystyr a roddir i “*educational programmes*” yn adran 104 o Ddeddf 2002;

mae i “ysgol a gynhelir” yr ystyr a roddir i “*maintained school*” yn adran 97 o Ddeddf 2002.

**Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1**

**4.** Nid yw darpariaethau Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru i fod yn gymwys mewn perthynas â disgybl cofrestredig yn y cyfnod allweddol cyntaf mewn ysgol a gynhelir pan fo'r disgybl hwnnw yn cymryd rhan yng nghynllun treialu'r cyfnod sylfaen.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

7 Mehefin 2005

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud o dan Ddeddf Addysg 2002, yn darparu ar gyfer datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sydd yn y cyfnod allweddol cyntaf ac sy'n cymryd rhan yng nghynllun treialu'r cyfnod sylfaen, (a elwir y *foundation stage* yn Lloegr ond yn *foundation phase* yng Nghymru).